



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

Lyn Williams
Cynghorydd Polisi'r Gymraeg

Rhif Diwygiad

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	5
Rhoi'r safonau ar waith	5
Codi ymwybyddiaeth o'r safonau	6
Gwella ein gwasanaethau Cymraeg	6
- Gwella ein gwasanaeth rhybuddio am lifogydd	6
- Brandio.....	7
- TGCh – nodi ein siaradwyr Cymraeg yn Outlook	7
- Lansio TGCh newydd.....	8
- Diwrnod #TîmCNC	8
- Adnoddau Cymraeg newydd ar gyfer dysgwyr.....	8
- Grŵp Pencampwyr.....	9
Gwefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol	9
- Facebook	9
- Twitter	10
- Instagram	11
Amlygu a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.....	11
Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-18.....	11
- Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â heriau yn yr Adroddiad Sicrwydd.....	12
- Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr Adroddiad Sicrwydd	12
- Canfyddiadau gwaith monitro'r comisiynydd o Cyfoeth Naturiol Cymru	13
Monitro mewnol o'n cydymffurfiaeth â safonau	14
Cydymffurfiaeth â safonau cadw cofnodion	14
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd.....	15
- Camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau llunio polisi	15
- Sgiliau Cymraeg y gweithwyr	15
- Cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd yn Gymraeg.....	16
- Sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi newydd neu wag	17
Hyfforddiant iaith Gymraeg	18
Monitro effeithiolrwydd ein rhaglen hyfforddiant a chynnydd ein dysgwyr	19
Rhoi Polisi Safonau'r Gymraeg ar waith	20
Perygl diffyg cydymffurfio.....	20
Casgliad.....	21
- Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu – Monitro cydymffurfiaeth â'r safonau yn fewnol ..	22

- Atodiad 2 – Cwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â'r Gymraeg 2018/19 25
- Atodiad 3 – Sgiliau Cymraeg y staff 28
- Atodiad 4 – Cyrsiau hyfforddiant Cymraeg..... 30
- Atodiad 5 – Camau a gymerwyd i weithredu a chydymffurfio â'r safonau 32

Crynodeb gweithredol

Croeso i'r crynodeb o'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-2019. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni i wella ein gwasanaethau Cymraeg, yn unol â'r gofynion a amlinellir gan safonau'r Gymraeg sydd gennym, yn ystod y cyfnod adrodd.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau, partneriaid ac aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru, gan barchu eu hunaniaeth a darparu gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gennym aelodau o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd ledled Cymru ac rydym yn cefnogi ein staff sy'n datblygu eu sgiliau iaith trwy ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg.

Yn 2019, penodwyd aelodau newydd i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gan Uned Gyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac roedd un yn rhugl yn y Gymraeg ac roedd dau wedi dysgu Cymraeg i safon uchel. Mae ein prif weithredwr yn dysgu Cymraeg yn ogystal ac mae hi'n parhau i ddatblygu ei sgiliau iaith o amgylch ei hymrwymiaadau gwaith.

Mae gwaith wedi parhau eleni ar wella ein gwasanaethau rhybuddio rhag llifogydd i'r cyhoedd, gan ganolbwyntio eleni ar wasanaeth ffôn Floodline, sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â'r Alban a Lloegr. Mae'r gwelliant hwn yn golygu y bydd galwyr o Gymru o haf 2019 yn cael cynnig gwasanaeth Cymraeg llawer yng nghynt yn y broses, gyda'r galwadau Cymraeg yn cael eu trosglwyddo i siaradwyr Cymraeg yn ein Canolfan Cyfathrebu Digwyddiadau 24/7 ein hunain. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth cymharol â'r un a brofir gan alwyr Saesneg eu hiaith a bydd yn welliant i'r gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd yn flaenorol.

Mae ymarfer monitro mewnol wedi'i gynnal er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r safonau wedi'u hymgorffori ers eu gweithredu; mae canfyddiadau'r archwiliad wedi helpu drwy nodi lle y mae angen gwneud gwaith ychwanegol er mwyn helpu i wella ein gwasanaethau Cymraeg ac i gydymffurfio'n llwyr â'n safonau ar gyfer y cyhoedd a'n staff ein hunain.

Casglwyd gwybodaeth o'n dysgwyr er mwyn mesur cynnydd ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg ers ei lansio ym mis Mehefin 2014. Mae'r ymarfer hwn wedi dangos bod ein dysgwyr yn datblygu eu sgiliau iaith yn gyson gyda mwy o'n staff yn medru deall a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd, gan weithio tuag at ein gweledigaeth o ddod yn sefydliad dwyieithog ym mhob un o'n gweithleoedd yn y dyfodol. Cymerwyd camau yn fewnol yn ogystal er mwyn nodi pwy yw ein siaradwyr Cymraeg o fewn ein system e-bost Outlook, ac mae hyn wedi helpu i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn fewnol rhwng staff.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd yn ôl y gofyn.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg; gellir hefyd darparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

Cyflwyniad

Fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, daeth y safonau i rym ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ar 25 Ionawr 2017, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac maent yn cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Nod y safonau yw: -

- Darparu gwasanaeth Cymraeg gwell a mwy cyson i siaradwyr Cymraeg
- Egluro'n glir i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Egluro'n glir i sefydliadau cyhoeddus ynglŷn â'u dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg
- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae ein hysbysiad cydymffurfio o Gomisiynydd y Gymraeg yn rhestru 168 o safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw gyda dyddiad cydymffurfio ar gyfer bob un. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi gweithredu'r safonau a gwaith rydym wedi'i gynnal i wella ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod y flwyddyn yn y categorïau canlynol: -

Safonau gwasanaeth – y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd.

Safonau polisi – sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r broses benderfynu trwy gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag effaith niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ei fod yn cynyddu'r cyfleoedd i'w defnyddio.

Safonau gweithredol – hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn ein prosesau gweinyddol mewnol.

Safonau cadw cofnodion – cadw cofnodion er mwyn cydymffurfio â gofynion y safonau mewn meysydd fel sgiliau Cymraeg y staff, hyfforddiant, cwynion a recriwtio.

Mae angen i'r Adroddiad Blynyddol hwn gael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi bob blwyddyn mewn cydymffurfiaeth â gofynion y safonau, ac mae'n rhaid iddo fanylu ar sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn adrodd o 2018 i 2019.

Rhoi'r safonau ar waith

Mae polisi a chanllawiau ar waith i helpu ein holl staff i weithio'n ddwyieithog a gellir dod o hyd iddynt ar dudalen y Gymraeg ar y fewnrwyd.

Rydym yn disgwyl i staff wneud y canlynol fel man cychwyn: -

- Ateb y ffôn yn ddwyieithog a chael neges peiriant ateb sy'n ddwyieithog
- Defnyddio negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog
- Cwrdd â chwsmeriaid a'u cyfarch yn ddwyieithog
- Hunanasesu a chofnodi eu sgiliau iaith yn MyNRW

- Gofyn i gwsmeriaid mewn modd rhagweithiol ynglŷn â'u dewis o iaith wrth ddelio â ni
- Danfon gohebiaeth yn ddwyieithog heblaw eu bod yn ymwybodol o ddewis iaith y derbynnydd

Mae'r gwaith wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf i godi ymwybyddiaeth yn fewnol o ofynion y safonau ac i wella ein gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i'n staff ein hunain.

Codi ymwybyddiaeth o'r safonau yn fewnol

Mae gwaith rheolaidd yn parhau'n fewnol i godi ymwybyddiaeth o'r safonau, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gweithio'n ddwyieithog a gofynion y safonau a chan amlygu unrhyw faterion neu gwynion a dderbyniwyd yn ddiweddar. Mae canllawiau ar waith i helpu'n holl staff i weithio'n ddwyieithog beth bynnag yw eu sgiliau Cymraeg ac mae gennym dîm cyfieithu mewnol i helpu i drefnu cyfieithiadau a phrawf-ddarllen gwaith yn ôl y gofyn.

Mae pob aelod newydd o'r staff yn parhau i dderbyn e-bost oddi wrth dîm y Gymraeg yn cynnwys gwybodaeth am y safonau ac mae canllawiau ar waith i'w helpu i weithio'n ddwyieithog. Yn y dyfodol, bydd aelodau newydd o staff heb unrhyw ddealltwriaeth o'r Gymraeg yn derbyn mat llygoden Cyfoeth Naturiol Cymru â chyfarchion Cymraeg sylfaenol, gan gynnwys ynganiadau seinegol, er mwyn helpu i ddangos cwртеisi ieithyddol sylfaenol wrth ateb y ffôn ac ysgrifennu e-byst.

Yn ogystal, mae aelodau newydd o staff yn cael eu gwahodd i gwrs undydd sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar hanes, diwylliant ac iaith a gofynion ein safonau. Mae adborth gan y rheini sydd wedi mynychu'r cyrsiau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gadarnhaol ac mae rhai wedi cael y diwrnod yn ysbrydoledig ac wedi dechrau dysgu'r iaith.

Mae cyfathrebu mewnol misol gan reolwyr wedi helpu i ledaenu negeseuon allweddol am y safonau i staff ledled y sefydliad, gan godi ymwybyddiaeth o unrhyw faterion mewn modd amserol a sicrhau bod staff yn gwybod yr hyn sydd ei angen a lle y gellir cael cyngor a help.

Mynychodd Cynghorydd Polisi'r Gymraeg gyfarfodydd tîm, gan roi cyflwyniadau ar y safonau, esbonio pam y maent ar waith, ac ateb cwestiynau ac ymholiadau gan staff. Mae'r sesiynau wyneb yn wyneb hyn wedi ein helpu i gael dealltwriaeth well o'n dyletswyddau cyfreithiol a pha mor bwysig yw bod yn rhagweithiol wrth gynnig dewis iaith o ran meithrin perthnasau da â chwsmeriaid a'n staff ein hunain.

Gwella ein gwasanaethau Cymraeg

Gwella ein gwasanaeth rhybuddio am lifogydd

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn gwella ein gwasanaeth i'w gwneud yn haws ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg i gofrestru ar gyfer rhybuddion llifogydd a derbyn gwybodaeth fwy amserol a defnyddiol am lifogydd. Rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ein gwasanaeth ffôn Floodline, a ddarperir mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Alban a Lloegr.

Mae Floodline yn galluogi galwyr i wrando ar wybodaeth wedi'i recordio am rybuddion llifogydd sydd ar waith, ynghyd â chyingor ynghylch sut i ymateb i lifogydd. Yn bresennol, mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg, er bod y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg yn isel, h.y. 3.5% o'r 2,100 o alwyr o Gymru ers mis Ebrill 2017.

Yn ogystal, mae galwyr yn gallu dewis siarad ag asiant galwadau i adrodd am lifogydd neu gofrestru ar gyfer ein gwasanaeth rhybuddio am lifogydd am ddim. Tra bod asiantau galwadau sy'n siarad Saesneg ar gael ar unrhyw amser, mae asiantau galwadau sy'n siarad Cymraeg ar gael yn ystod oriau'r dydd, ddydd Llun i ddydd Gwener, yn unig. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r elfen hon o'r gwasanaeth yn isel iawn, h.y. 0.7% o'r 1,650 o'r galwyr o Gymru i asiantau galwadau Floodline ers mis Ebrill 2017.

Rydym am annog galwyr i Floodline i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu'n fwy. I gefnogi hyn, rydym yn gwneud y gwelliannau dilynol o fis Ebrill 2019.

Yn gyntaf, rydym ar fin newid y gwasanaeth Floodline fel bod y Gymraeg yn cael ei gynnis i alwyr llawer ynghynt. Ar hyn o bryd, oherwydd y rhannwyd y gwasanaeth gyda'r Alban a Lloegr, cynigir gwasanaethau Cymraeg fel arfer o dan Opsiwn 5 o'r ddewislen ffôn. O fis Ebrill 2019, bydd galwyr yn cael eu gofyn ar ddechrau'r alwad i nodi o ba wlad y maent yn galw ohoni. Unwaith y maent wedi dewis Cymru ar y ddewislen, bydd galwyr yn cael dewis pa iaith y maent yn dymuno ei defnyddio wrth barhau. Bydd hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig i alwyr o Gymru cyn gynted ag y bo modd yn ystod eu galwadau.

Yn ail, o haf 2019, bydd galwr sy'n dymuno siarad ag asiant galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gysylltu â gweithredwr sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolfan Cyfathrebu Digwyddiadau 24/7 Cyfoeth Naturiol Cymru. Golyga hyn y byddwn yn darparu gwasanaeth cymharol â'r hyn a brofir gan alwyr sy'n siarad Saesneg.

Bydd y ddau newid hyn yn gwella rhwyddineb mynediad a safon y gwasanaeth rydym yn ei darparu i'n cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yn fawr iawn. Bydd cyflwyno adrodd misol mwy manwl o'r gwasanaeth Floodline yn ein galluogi i ddilyn y defnydd ychwanegol a ddisgwyllir o ran y gwasanaethau hyn.

Brandio

Mae'r tîm brandio wedi bod yn gweithio ar sicrhau bod templedi Microsoft ar gyfer defnydd gan staff yn ddwyieithog, ac mae hyn yn cynnwys templedi cyflwyno PowerPoint er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn cyflwyniadau.

Cyhoeddwyd llofnod e-bost corfforaethol newydd sydd wedi'i wella at ddefnydd yr holl staff i'w gwneud yn gliriach i'r rheini rydym yn delio â nhw ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg fel a ganlyn: -

“Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi”

TGCh – nodi ein siaradwyr Cymraeg yn Outlook

Mae ein Pencampwr TGCh wedi bod yn gweithio ar ddatrysiaid i'w gwneud yn haws i staff nodi pwy yw ein siaradwyr Cymraeg. Bydd neges “Dwi'n Siarad Cymraeg” yn ymddangos wrth deipio enw unigolyn yn y blwch “I” yn Outlook. Bydd hyn yn helpu staff i benderfynu pa iaith y dylid ei defnyddio i e-bostio ei gilydd a bydd yn ymddangos ar gyfer yr holl staff

sydd wedi hunanasesu eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl. Bydd hyn yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r weithred hon wedi'i chroesawu gan siaradwyr Cymraeg, sydd bellach yn gwybod trwy glicio botwm yn unig â phwy y maent yn gallu cyfathrebu â nhw trwy gyfrwng y Gymraeg yn fewnol.

Yn y dyfodol agos, byddwn yn gofyn i'n dysgwyr Cymraeg a fyddant yn dymuno cael neges "Dwi'n Dysgu Cymraeg" mewn Outlook er mwyn helpu iddynt feithrin eu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith.

Lansio TGCh newydd


Cyflwynwyd meddalwedd Windows 10 i'r holl staff yn ystod y flwyddyn, gan roi dewis i'r staff o weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dymuniad. Mae'r feddalwedd hefyd yn darparu cyfleuster gwirio sillafu yn y Gymraeg i helpu ein siaradwyr Cymraeg rhugl a'n dysgwyr wrth ddefnyddio eu Cymraeg ysgrifenedig yn y gwaith.

#Diwrnod TîmCNC

Ar 24 Hydref 2018, gwahoddwyd yr holl staff ledled y sefydliad i'n diwrnod #TîmCNC cyntaf yn Aberystwyth. Bu Cynghorydd Polisi'r Gymraeg yn gweithio gyda'r tîm cyfathrebu er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ffurfio rhan naturiol o'r diwrnod, gyda defnydd cyfyngedig o gyfieithydd ar y pryd. Gwnaeth ein staff dwyieithog ein hunain gadeirio a hwyluso'r diwrnod. Rhoddwyd dewis i'r staff ynghylch mynychu gweithdai a chyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd yr holl ddeunyddiau ar gyfer y diwrnod wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog. Roedd y diwrnod yn llwyddiannus iawn gyda staff yn gwerthfawrogi ac yn gwneud sylwadau am yr ystyriaeth a roddwyd i'r iaith wrth drefnu'r diwrnod, a wnaeth arwain at ddiwrnod ag awyrgylch dwyieithog naturiol.

Adnoddau Cymraeg newydd ar gyfer dysgwyr

Creodd Cydlynnydd y Gymraeg a'r tîm brandio mat llygoden ar gyfer y staff nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl a dysgwyr newydd er mwyn eu helpu wrth ateb y ffôn yn ddwyieithog; mae'r matiau yn cynnwys sut i ynganu'r cyfarchion mewn modd seinegol.



Cyflwynwyd dau ap ffôn symudol, 'Ap Treiglo' (i helpu gwirio treigladau yn y Gymraeg) ac 'Ap Sglein' (i helpu dysgwyr a siaradwyr rhugl i ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig), ar gyfer y ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen a ddefnyddir gan y staff wrth weithio. Mae ffonau symudol newydd wedi'u cyflwyno ac rydym wrthi'n cael caniatâd i osod yr apiau newydd hyn ar y ffonau gwaith newydd.

Grŵp Pencampwyr

Mae gennym grŵp monitro'r Gymraeg ar waith (Grŵp Pencampwyr), sydd â'r swydd o oruchwylio, hyrwyddo a monitro'r safonau o fewn pob cyfarwyddiaeth. Mae cynrychiolydd o bob cyfarwyddiaeth yn eistedd ar y grŵp ac yn codi ymwybyddiaeth o'r polisi o fewn ei gyfarwyddiaeth ei hun. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Gogledd a Chanolbarth Cymru ac amlygir unrhyw beryglon o ddiffyg cydymffurfio mewn cyfarfodydd. Mae'r grŵp yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn i drafod gofynion ac unrhyw fentrau a phrosiectau newydd ac i drafod unrhyw faterion a chwynion a dderbyniwyd gan bob cyfarwyddiaeth.

Mae'r Pencampwyr yn ymwneud â hwyluso defnydd o'r iaith yn fewnol ac, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi bod yn ymwneud â nifer o fentrau fel a ganlyn: -

- Mae TGCh yn cyfieithu eu holl wybodaeth ar gyfer staff eu hunain
- Helpu undebau llafur gyda chyfieithu gwybodaeth i'r staff
- Staff caffael yn cyfieithu hysbysiadau eu hunain ar gyfer y safle GwerthwchiGymru
- Sicrhau bod siaradwr Cymraeg ym mhob digwyddiad i gyflenwyr caffael
- Trefnu cyrsiau llesiant Cymraeg eu hiaith
- Codi ymwybyddiaeth o'r angen i bob cyflwyniad gan aelodau staff fod yn ddwyieithog
- Sicrhau y cynhwysir y Gymraeg drwy gael templedi PowerPoint dwyieithog
- Bydd cardiau adnabod staff newydd yn cynnwys neges "Dwi'n siarad Cymraeg" neu

"Dwi'n dysgu Cymraeg"

Gwefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae ein gwefan gorfforaethol swyddogol yn ddwyieithog ac mae cyhoeddwr ar ein gwefan yn sicrhau bod dogfennau yn cael eu cyhoeddi yn unol â gofynion ein safonau cyfieithu.

Rhoddir dewis o iaith i ddefnyddwyr ar y wefan i ddechrau, ac maen nhw hefyd yn gallu newid eu dewis o iaith ar bob tudalen.

Cyfanswm nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan yn ystod 2018/19 oedd 3,496,848.

Nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan drwy'r Gymraeg yn 2018/19 oedd 38,846 (1.11%).

Facebook

Mae pob un o'n tudalennau Facebook yn dudalennau dwyieithog cyfunol, felly nid oes gennym ddadansoddiad o ddilynwyr cyfrif Cymraeg/Saesneg.

Mae gan brif gyfrif Cyfoeth Natural Cymru / Natural Resources Wales ar Facebook 8,077* o ddilynwyr.

- Coed y Brenin: 10,365 o ddilynwyr
- Garwnant: 4,172 o ddilynwyr
- Bwlch Nant yr Arian: 8,434 o ddilynwyr
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Gogledd Cymru (Cadair Idris gynt): 452 o ddilynwyr
- Ynys Las: 1,784 o ddilynwyr
- Twyni Merthyr Mawr: 877 o ddilynwyr
- Llwybr Arfordir Cymru: 16,347 o ddilynwyr
- Cyforgorsydd Cymru – 160 o ddilynwyr ***Cyfrif newydd***
- Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru – 134 o ddilynwyr
- Ceidwaid Beicio Mynydd Coed y Brenin a Gwydir – 4,986 o ddilynwyr
- Ceidwaid Beicio Mynydd De Cymru – 4,511 o ddilynwyr
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Oxwich – 370 o ddilynwyr
- Parth Cadwraeth Morol Sgomer – 416 o ddilynwyr

Rheolir y tudalennau gan dimau unigol, ac mae'r tîm cyfathrebu'n darparu canllawiau a nodion atgoffa ar yr angen i gyfieithu popeth a gaiff ei bostio.

Twitter

Mae gennym nifer o gyfrifon ar Twitter, a gellir eu dilyn ar [restr o gyfrifon Twitter Cyfoeth Naturiol Cymru](#).

Cyfrifon tîm dwyieithog

- @NatResWales (cyfrif canolog) – 14,700 o ddilynwyr
- @welshraisedbog – 469 o ddilynwyr
- @DyfiWardensNRW – 346 o ddilynwyr
- @CoedyBreninFP – 2,872 o ddilynwyr
- @Garwnant_Forest – 329 o ddilynwyr
- @BNYArian – 888 o ddilynwyr
- @WalesCoastPath – 24,100 o ddilynwyr
- @GeoscienceNRW – 27 o ddilynwyr ***Cyfrif newydd***

Cyfrifon dwyieithog/Cymraeg #TîmCyfoeth

- @WardenCadair – 637 o ddilynwyr
- @GavinBownNRW – 150 o ddilynwyr
- @SianWilliamsNRW – 695 o ddilynwyr
- @CallumStoneNRW – 194 o ddilynwyr ***Cyfrif newydd***

Saesneg / dysgu Cymraeg

- @MartynEvansNRW – 424 o ddilynwyr
- @JohnHoggNRW – 154 o ddilynwyr
- @LajlaCashNRW – 82 o ddilynwyr ***nid yn weithredol ar hyn o bryd***
- @BenWilsNRW – 443 o ddilynwyr
- @SteveMorganNRW – 326 o ddilynwyr
- @MTBRangersouth – 792 o ddilynwyr
- @NadiaDL_NRW – 465 o ddilynwyr
- @SWilliamsNRW – 63 o ddilynwyr ***Cyfrif newydd***

@SarahWoodNRW – 222 o ddilynwyr *Cyfrif newydd*

Lefel cyfarwyddwr / cadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol

@GarethOSheaNRW – 200 o ddilynwyr

Instagram

[@nrwlaboratory](#) – 40 o ddilynwyr *Cyfrif newydd*

*Roedd y ffigurau'n gywir ar 4 Chwefror 2019.

Mae gennym fwy o staff yn trydaru yn Saesneg nag yn Gymraeg ar hyn o bryd, ond rydym yn awyddus i ddatblygu ein rhwydwaith o staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol. I ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg ar-lein, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Annog mwy o staff Cymraeg i drydaru fel rhan o'u busnes swyddogol
- Annog pob aelod o'n staff i ddefnyddio hashnodau #TîmCyfoeth ac #yagym er mwyn helpu i annog y defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd fel #ShwmaeSutmae
- Rhannu mwy o gynnwys Cymraeg ar draws ein rhwydwaith o gyfrifon
- Sicrhau bod pob cyfrif ar lefel cyfarwyddwr / cadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol yn ymdrechu i gynnwys Cymraeg o fewn cyfrifon lle bynnag y bo'n bosibl

Gall staff gael canllawiau gan ein tîm cyfathrebu digidol ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Amlygu a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant

Lle bynnag y bo modd, rydym yn hyrwyddo'r iaith a'i diwylliant yn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac ar y fewnwyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffyrdd hyrwyddo canlynol wedi'u defnyddio: -

- Tynnwyd sylw at gyhoeddiad Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2017/18 ar gyfryngau cymdeithasol Twitter a Facebook ym mis Medi 2018.
- Anogwyd pobl i ddechrau pob sgwrs gyda "Sut mae" neu "Shwmae" ar Ddiwrnod Shwmae Su'mae, a thynnwyd sylw at hyn ar Yammer a Twitter.
- Tynnwyd sylw at Ddiwrnod Cerddoriaeth Gymraeg i ddathlu holl ffurfiau cerddoriaeth Cymraeg ar Yammer.
- Rhannwyd Dydd Santes Dwynwen ar Facebook a Twitter, a gyrhaeddodd gynulleidfa o 217,000, canlyniad cadarnhaol am hyrwyddo treftadaeth Cymru, ap PlaceTales Cymru, a safle a chyfleusterau Cyfoeth Naturiol Cymru yn Niwbwrch. Roedd hyn yn rhaniad uwch na'r cyffredin o ran ein pyst ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Hyrwyddwyd Dydd Gŵyl Dewi ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd.
- Hyrwyddwyd Teli Môn (sianel deledu Cymraeg newydd ar gyfer pobl sy'n byw ar Ynys Môn) ar Yammer.
- Tynnwyd sylw at Ddiwrnod Crempog ar Yammer.

Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-18

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sicrwydd bob blwyddyn gyda gwybodaeth a gasglwyd o'r gwaith monitro y mae'r comisiynydd yn ei gynnal fel rhan o'i

dylatswyddau wrth reoleiddio'r safonau. Mae canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, "*Mesur o Lwyddiant: Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-18*", yn dangos y canlynol: -

- Mae gwasanaethau Cymraeg yn gwella ledled Cymru yn gyffredinol, ond er mwyn meithrin ymddiriedaeth â defnyddwyr, mae angen i wasanaethau Cymraeg fod ar gael ar bob adeg, gan greu cysondeb â gwasanaethau Saesneg.
- Mae angen i sefydliadau hyrwyddo ac annog defnydd o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol a sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio.
- Mae angen i sefydliadau roi ystyriaethau manwl strategol o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau am lunio polisiau, gan gynnwys o fewn gweithrediadau mewnol.

Mae'r adroddiad yn cydnabod mai'r prif heriau ar gyfer sefydliadau cyhoeddus yw: -

- Datblygu darpariaeth a threfniadau hunanreoleiddio er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg a'u bod o ansawdd cyfartal â gwasanaethau yn y Saesneg.
- Deall ein defnyddwyr gwasanaeth a'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a chymryd camau i hyrwyddo a hwyluso gwasanaethau Cymraeg er mwyn cynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio.
- Rhoi ystyriaeth strategol fanwl i gynyddu cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ym mhob penderfyniad, gan gynnwys defnyddio'r iaith yn fewnol.

Camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn yr Adroddiad Sicrwydd: -

- Cymerwyd camau i fonitro ein cydymffurfiaeth â'r safonau ac rydym yn bwriadu ychwanegu at y gwaith hwn trwy ddatblygu ein trefniadau hunanreoleiddio ein hunain gyda thimau amrywiol.
- Mae'r gwasanaethau Cymorth Pobl yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, yn sicrhau bod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg i drafod materion personél, ac yn derbyn gohebiaeth ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg gan ein staff pe ddymunant wneud hynny.
- Mae'r ddesg gwasanaeth TGCh yn darparu dewis o iaith i staff pan maent yn trafod materion wrth iddynt godi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm y ddesg gwasanaeth wedi delio ag 1,415 o alwadau trwy gyfrwng y Gymraeg, sef 9% o'r galwadau a dderbyniwyd gan y tîm. Oherwydd bod y ddesg gwasanaeth yn rhagweithiol wrth gynnig dewis iaith, gan rannu gwybodaeth am hyn yn dda yn fewnol, a bod staff yn gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn hawdd, mae mwy o bobl na'r disgwyl yn ei ddefnyddio.
- Cymerwyd y penderfyniad i gynnig y gwasanaeth Floodline yn Gymraeg gan dîm mewnol o haf 2019 ymlaen, gan sicrhau cysondeb â'r gwasanaeth Saesneg a ddarperir.
- Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gwneud yn glir i ddefnyddwyr fod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar gyfer pob tudalen.

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg

Fel rhan o waith y comisiynydd wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad Sicrwydd, gofynnwyd inni a allai grŵp o'n staff gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ynghylch ein cydymffurfiaeth â'n safonau gweithredol (94-140), sy'n perthyn i'n gweithdrefnau mewnol.

Roedd yn drafodaeth fywiog a rhannwyd nifer o arferion da rydym wedi'u gweithredu gyda staff y comisiynydd: -

- Mae pob e-bost ar gyfer yr holl staff / grwpiau mawr yn cael ei anfon yn ddwyieithog
- Mae Cysill/Cysgeir ar gael i bob aelod o'r staff
- Mae ap Duolingo ar gael ar ffonau gwaith – mae'n helpu dysgwyr i ymarfer eu sgiliau Cymraeg pan mae'n gyfleus iddyn nhw
- Mae Ap Treiglo ar gael ar ffonau symudol y staff – mae'n helpu staff gyda'u treigladau yn y Gymraeg ac ati
- Mae Ap Sglein ar gael ar ffonau symudol y staff – mae'n helpu gyda deall rheolau gramadeg yn y Gymraeg
- Mae rhyngwyneb Windows 10 ar gael yn y Gymraeg os dymunir
- Mae TGCh yn cyfieithu eu negeseuon eu hunain i'r staff
- Mae TGCh yn cynnig dewis iaith i staff i drafod materion
- Mae'r Gwasanaethau Pobl yn cynnig gwasanaeth Cymraeg
- Gall staff dderbyn gohebiaeth y cyfeirir yn bersonol iddynt yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog
- Mae polisiau a chanllawiau ar gael i'r holl staff yn Gymraeg
- Mae'r fewnrwyd yn ddwyieithog
- Ceir tudalen hyfforddiant yn y Gymraeg ar y fewnrwyd gyda gwybodaeth ddefnyddiol i helpu dysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth am hanes a diwylliant Cymru
- Mae'r rhaglen hyfforddiant Cymraeg yn agored i'r holl staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ieithyddol at ddibenion gwaith

Bydd yr wybodaeth uchod yn cael ei rhannu fel arfer da gan y comisiynydd gyda sefydliadau eraill.

Canfyddiadau gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg o wasanaethau Cymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg lle y trafodwyd y canfyddiadau a gafwyd yn ystod gwaith monitro o'n sefydliad sydd i'w cynnwys yn yr Adroddiad Sicrwydd. Yn gyffredinol, gwnaeth ein sefydliad berfformio'n dda iawn fel a ganlyn: -

- Derbyniodd pob e-bost a anfonwyd yn Gymraeg ymateb yn y Gymraeg o fewn un diwrnod
- Derbyniodd pob ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg ar Facebook ymateb yn y Gymraeg ar yr un diwrnod
- Cafodd pob galwad ffôn ei chyfarch yn Gymraeg a chafodd y galwr wybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, a derbyniodd y galwr wasanaeth Cymraeg drwy gydol yr alwad
- Roedd negeseuon awtomataidd yn ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn ddwyieithog
- Roedd digwyddiad yr ymwelwyd ag ef yng Nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin yn arddangos deunydd cyhoeddus yn Gymraeg, gan gynnwys yr holl bosteri a deunydd hysbysebu
- Canfuwyd bod ffurflenni a hysbysiadau swyddogol a fonitryd ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan
- Roedd hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad ar gael yn Gymraeg
- Roedd ap ar-lein a fonitryd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gweithredol

Gwnaeth gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg amlygu rhai ardaloedd lle y mae angen gwelliannau gan ein sefydliad fel a ganlyn: -

- Nid oedd datganiad ar e-byst neu negeseuon Facebook a dderbyniwyd yn dweud bod croeso i unigolion gysylltu â'n sefydliad yn Gymraeg
- Nid oedd gwybodaeth ar ein gwefan ynghylch cyfarfodydd y bwrdd yn cynnwys y datganiad fod croeso i bobl gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus
- Nid oedd yr holl wybodaeth ar ein tudalennau rhybuddion llifogydd ar gael yn Gymraeg

Cysylltwyd â meysydd y busnes lle y mae angen gwelliannau a chymerwyd camau gweithredol i sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

Monitro mewnol o'n cydymffurfiaeth â safonau

Eleni, gwnaethom gynnal ymarfer monitro i gasglu gwybodaeth ynghylch pa mor dda rydym yn cydymffurfio â'n safonau ers eu gweithredu ym mis Ionawr 2017. Mae canfyddiadau'r ymarfer hwn wedi rhoi llinell sylfaen i ni ynghylch pa mor dda yr ymgorfforwyd ein safonau. Gofynnwyd i dimau i fod yn onest gyda'u hymatebion, i'n galluogi i ganolbwyntio ar feysydd sydd angen arweiniad/cyngor pellach er mwyn helpu i gydymffurfio a gwella ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Gwnaeth yr ymarfer monitro ganolbwyntio ar wasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd ac i'n staff ein hunain ar gyfer y timau canlynol: Brandio, Canolfan Gofal Cwsmeriaid, Cyllid Allanol, Cyfathrebiadau Digidol, Polisiâu Pobl, Caffael, Cyfleusterau, Hamdden, Recriwtio, Cyfieithu, a Dysgu a Datblygu.

Gwnaeth yr ymarfer monitro nodi rhai safonau oedd yn gofyn i dimau gynnal gwaith ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth lawn. O'r 108 o safonau a gafodd eu monitro, nodwyd deg o gamau gweithredu sydd angen mynd i'r afael â nhw a gellir eu gweld yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn. Trafodwyd yr holl gamau gweithredu angenrheidiol gyda meysydd y busnes sy'n ymwneud â nhw ac mae'r gwaith a nodwyd wedi cael ei ddechrau o fewn y busnes. Mae pob cam gweithredu a nodwyd yn gyflawnadwy ar gyfer ein sefydliad ac maent yn berthnasol i'n safonau gweithredol, sef ein gwasanaethau i'n staff ein hunain yn fewnol.

Cydymffurfiaeth â safonau cadw cofnodion

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith Cynllunio'r Sefydliad wedi parhau a dylai gael ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, gyda strwythur newydd yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru mewn safle gwell i gyflawni ei weledigaeth: sef bod yn falch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg wedi ffurfio rhan o'r broses gyda chanllawiau mewn lle ar gyfer rheolwyr i benderfynu'r sgiliau iaith sy'n ofynnol ar gyfer rolau, gan sicrhau nad yw newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ein gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yn ein holl weithleoedd.

Mae'r safonau yn gofyn i ni gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan ei gyhoeddi erbyn diwedd pob mis Medi, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad 2017/18 ym mis Medi

2018 a chafodd ei amlygu ar Facebook, Twitter a'r rhyngwyd gyda dolen yn gwahodd pobl i ddarllen yr adroddiad.

Mae'r safonau cadw cofnodion yn gofyn bod y wybodaeth isod yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blyneddol: -

Nifer y cwynion a dderbyniwyd a sut yr ymdriniwyd â nhw

Dros y cyfnod adrodd hwn, derbyniwyd chwech o gwynion ynghylch ein gwasanaeth Cymraeg. Mae tair cwyn wedi dod yn uniongyrchol atom ac anfonwyd tair cwyn arall yn uniongyrchol at Gomisiynydd y Gymraeg. Datryswyd y cwynion a ddaeth yn uniongyrchol atom ni mewn trafodaeth â'r achwynwyr, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg roeddent yn ei ddisgwyl. Penderfynodd y Comisiynydd i ymchwilio i ddau o'r cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol: terfynodd y Comisiynydd un ohonynt o ganlyniad i gamau gweithredu y gwnaethom eu cymryd i ddatrys y mater ac mae un yn dal i ddisgwyl am ganlyniad proses ymchwilio'r comisiynydd.

Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd eleni wedi gostwng ac rydym wedi gallu datrys mwy o faterion yn uniongyrchol â'r achwynydd.

Rydym yn gwerthfawrogi bod pobl yn cysylltu â ni pan nad ydynt yn fodlon ag unrhyw wasanaeth y maent wedi'i dderbyn gennym gan fod hyn yn ein helpu i'w wella yn y dyfodol. Gellir gweld mwy o wybodaeth am bob un o'r cwynion a dderbyniwyd, y canlyniad, ac unrhyw gamau gweithredu pellach yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn.

Camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau llunio polisi

Am bob polisi neu brosiect newydd neu a ddiwygiwyd, mae gofyn i staff gwblhau asesiad i gynnal a diogelu cydraddoldeb ac amrywiaeth gydag ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn yr offeryn asesu, yn unol â deddfwriaethau sydd ar waith. Mae'r ystyriaethau hyn wedi cael eu hysgrifennu yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n cofnodi sut mae'r penderfyniad yn gallu:

- cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg;
- peidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg; a
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, cynhaliwyd a llofnodwyd saith asesiad effaith gan arweinwyr polisi/prosiectau, aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth, yr Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb a Chynghorydd Polisi'r Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg yr holl weithwyr ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol

Gofynnwyd i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a chofnodi eu canfyddiadau ar ein system adnoddau dynol a chyllid canolog MyNRW. Hyd yma, mae 90.4% (1,930) o'n staff wedi cwblhau'r dasg hon. Nid oes gan bob aelod o'r staff fynediad at system MyNRW ac felly mae diweddariadau diweddar i'r system wedi'u gwneud sy'n caniatáu rheolwyr i gofnodi sgiliau iaith ar eu cyfer. Byddwn yn parhau i weithio gyda rheolwyr i gael cyfradd gwblhau o 100%. Bydd hyn yn helpu ein sefydliad i allu cydymffurfio'n llawn â Safon 145 ac i allu darparu ffigurau mwy cywir sy'n adlewyrchu sgiliau Cymraeg go iawn ein sefydliad mewn adroddiadau.

Mae sgiliau iaith ein staff yn datblygu'n araf ac mae ein hystadegau yn dangos bod mwy o'n staff yn gallu siarad Cymraeg ar Lefel 3 a 5 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Gellir gweld cofnod o sgiliau Cymraeg ein staff yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

Mae ein rhestr wirio ymsefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd yn gofyn bod rheolwyr yn sicrhau bod staff newydd yn ymwybodol o safonau'r Gymraeg a chanllawiau ein sefydliad a'n rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg ac yn sicrhau bod staff newydd yn hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg, gan gofnodi'r canfyddiadau ar system MyNRW. Mae rheolwyr a staff yn llofnodi a dyddio pob gweithgaredd ar y rhestr wirio ymsefydlu wrth iddynt eu cwblhau.

Mae sgiliau iaith staff sy'n gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus (Lefel 3) wedi cynyddu 1.1% dros y flwyddyn ariannol ac mae ein siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n siarad ac ysgrifennu Cymraeg wedi cynyddu 0.2%.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 113 o aelodau staff wedi gadael y sefydliad ac roedd 21 (19%) o'r rheini yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae 428 (24.6%) o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac, o'r rheini sydd yn rhugl, mae mwyafrif, 128 (29.9%), o fewn grŵp oedran 50–65. Trwy recriwtio allanol yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi denu siaradwyr Cymraeg rhugl i'r sefydliad a chadw'n canran o siaradwyr Cymraeg ar 24.6%. Cyflawnwyd hyn trwy gynnal trafodaethau rhwng rheolwyr recriwtio a Chynghorydd Polisi'r Gymraeg wrth asesu lefelau iaith priodol ar gyfer pob swydd newydd neu wag. Mae'r rhain yn cymryd i ystyriaeth gofynion a lleoliad y rôl a gallu siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm uniongyrchol lle y bydd y rôl wedi'i lleoli yn ôl gofynion Safon 132. Mewn unrhyw rhaglenni cynllunio'r gweithlu sy'n digwydd yn y dyfodol, bydd angen cynnwys ystyriaethau o'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod gennym niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg yn y rolau cywir ym mhob un o'n gweithleoedd i gyflawni gwasanaeth dwyieithog, un unol â'n dyletswyddau cyfreithiol a'n gweledigaeth o ddod yn sefydliad dwyieithog naturiol yn y dyfodol.

Gellir gweld mwy o wybodaeth am broffil oedran ein staff sy'n siarad Cymraeg yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

Nifer a chanran y staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd yn Gymraeg

Mynychodd 14 aelod o staff gyrsiau a gynhaliwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 11 o'r cyrsiau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith ac fe'u trefnwyd gan Ardal Coed y Mynydd: -

- Diweddariad ar strimwyr clawdd – mynychodd dau y cwrs
- Defnyddio strimwyr clawdd – mynychodd dau y cwrs
- Cwrs ar strimwyr clawdd / torwyr llwyni – mynychodd un
- Cwrs diweddaru ar lifau cadwyn – mynychodd un
- Cwrs gyrru gyda threlar - mynychodd un
- Cwrs defnyddio peiriannau malu coed – mynychodd un
- Cwrs gyrru cerbydau pob tir – mynychodd dau
- Cwrs asesu llifau cadwyn – mynychodd un

*Nid ydym yn gallu rhoi canran ar gyfer yr holl staff a fynychodd gan fod y rhain yn gyrsiau a gynhaliwyd gan ddarparwr allanol gydag eraill yn mynychu.

Trefnwyd un cwrs sgiliau cyfweiliad trwy gyfrwng y Gymraeg a chofrestrodd wyth gyda thri yn mynychu ar y diwrnod (derbyniodd 100% o'r rheini a wnaeth gymryd rhan ar y dydd yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg).

Mae cyrsiau llesiant a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u trefnu ar gyfer Mai/Mehefin 2019.

Gofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn, gyda chategorïau sgiliau Cymraeg fel a ganlyn: -

Mae pob swydd newydd a gwag sy'n cael ei hysbysebu yn cael ei hasesu'n gyntaf gan y rheolwr recriwtio cyn cael cytundeb Cynghorydd Polisi'r Gymraeg wedyn. Nodir gwybodaeth ar daenlen am y lefel iaith y cytunwyd arni ar gyfer y swydd, gallu'r tîm o ran nifer y siaradwyr Cymraeg sydd o fewn pob tîm, ac a yw'r sgiliau iaith yn hanfodol neu ddymunol neu a oes angen eu dysgu ar gyfer y swydd. Hysbysebir pob swydd gan gynnwys lefel ALTE Cymraeg o Lefel 1 i Lefel 5, pa bynnag un sy'n briodol ar gyfer y rôl, gan ystyried gofynion/natur y rôl, yr ardal y lleolir y rôl ynddi, a gallu Cymraeg y tîm o ran darparu gwasanaeth dwyieithog.

Roedd nifer y swyddi a hysbysebwyd fel hanfodol yn ystod y cyfnod adrodd hwn fel a ganlyn: -

Hanfodol	Disgrifiad o'r lefel iaith sydd ei hangen	Nifer a hysbysebwyd
Lefel 5	Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig	3
Lefel 4	Siarad Cymraeg yn rhugl	36
Lefel 3	Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	21
Lefel 1	Y gallu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol (e.e. "bore da") a'r gallu i ynganu enwau lleoedd Cymru yn gywir	339
Dymunol		
Lefel 4	Siarad Cymraeg yn rhugl	8
Lefel 3	Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	39
Angen dysgu Cymraeg		
Lefel 4	Siaradwr Cymraeg rhugl	2
Lefel 3	Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	10

O'r 458 o swyddi uchod a hysbysebwyd, roedd 327 ohonynt yn rolau dros dro am 100 wythnos neu lai.

Llenwyd 30 o rolau a hysbysebwyd ar Lefel 1 gan siaradwyr Cymraeg rhugl. Eleni rydym wedi hysbysebu 19 o swyddi ychwanegol sydd yn gwneud siarad Cymraeg yn hanfodol o'i gymharu â'r llynedd.

Mae'r Gymraeg yn cael ei hysbysebu'n hanfodol ar gyfer yr holl swyddi a hysbysebwr ar Lefel 1, oherwydd dyma'r lefel iaith isaf sydd ei hangen ar holl staff ein sefydliad i ddangos cwrteisi ieithyddol.

Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg

Cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Trefnwyd dau gwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gwnaeth 16 aelod o staff eu mynychu. Canolbwyntiodd y cwrs ar yr iaith a'i hanes a diwylliant Cymru, gan esbonio ein dyletswyddau wrth weithredu'r safonau fel sefydliad cyhoeddus a sut y gellir defnyddio'r iaith yn y gweithle. Roedd adborth gan staff a fynychodd y cwrs yn gadarnhaol a gwnaeth pawb ymateb gan ddweud eu bod wedi mwynhau'r diwrnod a'i fod yn rhyngweithiol ac wedi'i gynllunio'n dda, gan helpu'r mynychwyr i gael gwell ddealltwriaeth o Gymru'r gorffennol, y Gymru sydd ohoni a Chymru'r dyfodol, yn ogystal â disgwyliau'r sector cyhoeddus. Ysbrydolodd y cwrs hefyd nifer o staff a fynychodd i ddechrau dysgu'r iaith.

Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg

Eleni, mae'r rhaglen wedi cynorthwyo 302 aelod o staff i ddysgu Cymraeg ar lefelau amrywiol, sef cynnydd o 32 o ddysgwyr ar y llynedd. Gwnaeth 30 aelod o staff sefyll a phasio arholiadau ym mis Mehefin 2018 ac mae disgwyl y bydd mwy yn sefyll arholiadau ym mis Mehefin eleni. Mae staff yn derbyn absenoldeb astudio cyn arholiad ac er mwyn sefyll yr arholiad ei hun, yn unol â'n polisiau. Anfonwyd ffurflenni gwerthuso at yr holl ddysgwyr i ofyn am adborth ar eu cyrsiau hyfforddiant. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol, gyda chanran uchel o staff yn gwerthfawrogi'r cyfle a'r cymorth a roddir gan y sefydliad i ddatblygu eu sgiliau iaith yn ystod oriau gwaith.

Rydym yn gwerthfawrogi bod dysgu iaith yn ymrwymiad hirdymor a phersonol. Er mwyn cefnogi ein staff ar eu taith i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn y dyfodol, rydym wedi trefnu cyrsiau ychwanegol ledled y sefydliad er mwyn helpu i fagu hyder wrth ddefnyddio'r iaith o fewn amgylchedd y gweithle, ac mae'r rhain wedi'u dylunio o amgylch gwaith a theminoleg Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal, mae grwpiau adolygu wedi'u trefnu i gefnogi ein staff sy'n sefyll arholiadau. Cymerodd un tiwtor ei dosbarth ar daith o Stadiwm y Principality, gan eu galluogi i glywed yr iaith yn cael ei siarad a defnyddio'r iaith yn anffurfiol mewn sefyllfa bywyd anffurfiol go iawn. Mae'r cyrsiau ychwanegol hyn wedi'u datblygu gan ein Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg mewn trafodaeth â thiworiaid, gan sicrhau bod cyrsiau yn bodloni ein gofynion dysgu.

Rydym hefyd wedi cymryd mantais o'r cyrsiau preswyl wythnos o hyd a ddyluniwyd ac a gynigiwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, heb unrhyw gost inni, er mwyn cefnogi Strategaeth Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n gosod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae mynychu cwrs preswyl wythnos o hyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr i ymdrochi eu hunain yn yr iaith i ffwrdd o'r gweithle ac amgylchedd y cartref. Mae adborth gan y rheini sy'n mynychu'r cyrsiau yn gadarnhaol iawn, gan gydnabod bod eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r iaith ar sail fwy rheolaidd wedi'u helpu i fagu hyder wrth siarad Cymraeg.

Mae cwrs ar-lein deg awr o hyd, Croeso Cymraeg Gwaith, a gynlluniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn helpu staff sydd heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg i allu

cyfarfod â phobl a'u cyfarch ac ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan ddangos cwrteisi ieithyddol, sef y lefel iaith isaf sy'n ofynnol ar gyfer holl aelodau staff o fewn y sefydliad. Gellir cwblhau'r cwrs unrhyw bryd o fewn cyfnod o dri mis sy'n gyfleus i'r dysgwr, a gellir adolygu cynnwys sydd wedi'i gwblhau yn barod. Mae 99 wedi cofrestru gydag 14 yn cwblhau'r cwrs. Mae'r raddfa gwblhau ar gyfer y cwrs hwn yn isel iawn a dyma rywbeth y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef a deall y rhesymau drosto, er mwyn sicrhau bod ein holl staff yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol o fewn y sefydliad.

Gellir gweld mwy o wybodaeth fanwl am y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a drefnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf a nifer y staff sydd wedi'u mynychu yn **Atodiad 4** i'r adroddiad hwn.

Monitro effeithiolrwydd ein rhaglen hyfforddiant a chynnydd ein dysgwyr

Cafodd ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg ei lansio yn 2014 a'i hagog i'r holl staff a oedd yn dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith. Mae'r rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus o'r dechrau ac eleni gwnaethom benderfynu werthuso'r rhaglen trwy anfon ffurflen gwerthuso at ein dysgwyr er mwyn casglu gwybodaeth ar faint o Gymraeg roedd ein dysgwyr yn ei ddefnyddio, pa mor aml â ble, pryd y gwnaethant ddechrau teimlo'n ddigon hyderus i ddechrau defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith, a oedd cael mentor neu fynychu "Siop Siarad" wedi helpu, a beth arall y gallem ei wneud i'w cefnogi gyda'u dysgu.

Gwnaeth dadansoddiad o'r ffurflenni gwerthuso ganfod y canlynol: -

- Roedd 63% wedi bod yn dysgu am fwy na phum mlynedd
- Roedd 85% yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith
- Roedd 88% yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg i ryw raddau y tu allan i'r gwaith
- Mae hyder wrth ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn anffurfiol yn dechrau ar ôl pedair blynedd
- Roedd gan deg o bobl fentor
- Roedd 14 wedi mynychu "Siop Siarad" am sgwrs anffurfiol gyda dysgwyr eraill a siaradwyr Cymraeg
- Roedd 45% yn ddiolchgar am gael cyfle i ddysgu
- Roedd rhai yn teimlo nad oedd hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael yr un flaenoriaeth â hyfforddiant arall yn y gweithle, gan fod mynychu cyfarfodydd yn lle dosbarthiadau Cymraeg yn flaenoriaeth i rai timau
- Ymatebodd tri i ddweud nad ydynt wedi cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith neu y tu allan iddo

Yn dilyn yr ymatebion gwerthuso, rydym wedi cymryd y camau gweithredu canlynol neu rydym yn bwriadu eu cymryd: -

- Mae grŵp Yammer wedi'i sefydlu fel bod dysgwyr yn gallu rhannu profiadau, helpu ei gilydd â gwaith cartref, neu ymarfer eu sgiliau ysgrifenedig mewn modd anffurfiol
- Bydd y cynllun mentora yn cael ei ail-lansio a'i ddiwygio i geisio denu mwy o fentoriaid a mentoreion gan ddefnyddio ein cyfleusterau Skype
- Sefydlu sesiynau sgwrsio "Siop Siarad" anffurfiol mewn swyddfeydd lle ceir clystyrau o ddysgwyr
- Ystyried creu rhwydwaith o swyddfeydd i helpu dysgwyr â gwaith cartref

Mae cyrsiau preswyl a ariennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi'u cylchredeg i bob dysgwr mewn e-bost ac yn fwy eang i'r holl staff ar y fewnwyd.

Rhoi Polisi Safonau'r Gymraeg ar waith

Mae Polisi Safonau'r Gymraeg a chanllawiau ar waith ac ar gael i'r holl staff ar y fewnwyd. Mae'r polisi a'r canllawiau wedi'u hamlygu nifer o weithiau mewn cyhoeddiadau a gyhoeddir ar y fewnwyd ac yn y cylchlythyr misol i reolwyr, yn gofyn i reolwyr drafod y gofynion hyn gyda'u staff mewn cyfarfodydd tîm.

Gellir gweld y gwaith a'r mesurau sydd ar waith i helpu'r holl staff i weithio'n ddwyieithog, cydymffurfio â'r safonau a'u gweithredu yn **Atodiad 5** i'r adroddiad hwn.

Perygl diffyg cydymffurfio

Bydd methiant i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn arwain at rai cwsmeriaid yn dymuno peidio cysylltu â ni. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran ein gwaith gyda Chyfeillion Dementia, sy'n effeithio ar ba mor dda y gall unigolyn dwyieithog gyfathrebu yn ei ail iaith.

Yn dilyn ein harchwiliad monitro mewnol o ba mor dda y mae'r safonau wedi'u gweithredu, mae rhai o'r peryglon o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ymwneud â gwaith mewnol yn bennaf ac yn rhai y gallwn fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Dengys ein hystadegau cyfredol fod 24.6% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl a bod nifer uchel o'n siaradwyr Cymraeg rhugl mewn rolau lle nad oes angen iddynt ymdrin â chwsmeriaid. Rydym yn parhau â'n rhaglen hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm ledled y sefydliad cyfan.

Ar ôl gorffen Cynllunio'r Sefydliad, bydd angen mapio sgiliau iaith pob tîm er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn pob tîm, gan ystyried natur a lleoliad y rolau a sicrhau bod y tîm yn gallu cyflenwi gwasanaethau yn ddwyieithog.

Oherwydd bod gwaith Cynllunio'r Sefydliad yn digwydd trwy gydol y busnes, mae nifer fawr o swyddi gwag wedi'u hysbysebu fel penodiadau tymor penodol o 100 wythnos, ac mae angen llenwi'r rhan fwyaf o'r rolau hyn ar frys am resymau parhad busnes. Gall hyn effeithio ar yr anghenion iaith Gymraeg a asesir ar gyfer y swyddi hyn, oherwydd hyd y contract. Oni bai fod deiliad y swydd yn ymdrin â'r cyhoedd yn ddyddiol/rheolaidd, hysbysebir swyddi ar Lefel 1, a gelwir ar sgiliau iaith Gymraeg y tîm uniongyrchol/ehangach i ymdrin ag ymholiadau sy'n ymwneud â'r swydd wag yn y tymor byr. Mae hyn yn cyd-fynd â'n canllawiau ar gyfer staffio a recriwtio, ond mae'n gallu effeithio ar allu iaith Gymraeg y tîm.

Mae trafodaethau wedi parhau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n dosbarthu trwyddedau pysgota i gwsmeriaid yng Nghymru ar ein rhan. Gall cwsmeriaid brynu trwyddedau mewn swyddfeydd post lleol yn ogystal â chan Asiantaeth yr Amgylchedd ar wefan .Gov.uk. Mae'r wefan hon ar gael yn Saesneg yn unig ac nid yw'n caniatáu i gwsmeriaid brynu trwyddedau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, nid oes modd i gwsmeriaid brynu trwydded trwy ffonio Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd cytundeb bron â bod ar waith lle byddai cwsmeriaid a oedd wedi ffonio Asiantaeth yr Amgylchedd ac a oedd yn dymuno prynu trwydded yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i'n staff Canolfan Gofal Cwsmeriaid ni er mwyn delio â hyn. Fodd bynnag, golygai cyflwyniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) nad oedd hyn yn bosibl. Rydym yn parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd gan ofyn bod porth .Gov.uk yn cael ei gyfieithu er mwyn caniatáu pryniannau ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru yn derbyn trwydded bysgota ddwyieithog.

Mae Safon 100 yn nodi y dylai staff allu cofnodi gwyliau blynyddol, absenoldebau ac oriau gweithio hyblyg yn Gymraeg. Nid yw system MyNRW yn caniatáu i staff gofnodi gwybodaeth yn Gymraeg ar hyn o bryd. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch ystyried y gofyniad hwn mewn diweddariadau i'r system yn y dyfodol.

Casgliad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i wella ein gwasanaeth Cymraeg ar gyfer y cyhoedd a'n staff ein hunain, gan wneud ein gorau i hwyluso defnydd o'r Gymraeg ym mhob maes o'n busnes.

Mae adborth gan ein cwsmeriaid yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflenwi'r gwasanaeth a ddisgwylir a gwasanaeth cyfartal mwy cyson yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Fel sefydliad cyhoeddus, mae gennym negeseuon pwysig rydym yn dymuno eu rhannu ac, er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen inni wneud hynny'n ddwyieithog, gan sicrhau bod ein negeseuon yn cael eu cyfathrebu'n glir a'u deall gan bob aelod o'r cyhoedd, partneriaid, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae nifer ein staff sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog yn cynyddu'n raddol, gyda staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau iaith yn ystod amser gwaith. Trwy'r broses recriwtio, rydym hefyd wedi denu siaradwyr Cymraeg rhugl i'r sefydliad, gan helpu i gyflawni ein gweledigaeth o ddod yn sefydliad dwyieithog naturiol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd wrth ddatblygu sgiliau iaith ein staff ar bob lefel yn gosod seiliau cadarn i gefnogi uchelgais Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un filiwn erbyn 2050. Mae ein blaenoriaethau gwaith presennol yn unol â rhaglen waith 2017-21 Llywodraeth Cymru, sydd wedi nodi tair thema strategol.

Mae ein gwaith yn cyfrannu tuag at y tair thema strategol fel a ganlyn:

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg – parhau i ddatblygu sgiliau iaith ein staff trwy ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg, gan ddarparu, lle bo modd, gyfleoedd dysgu mewn gweithdrefnau recriwtio er mwyn denu'r sgiliau cywir yn y lleoedd cywir.

Cynyddu defnydd o'r Gymraeg – gwneud gweithio'n ddwyieithog yn rhan arferol o sut rydym yn gweithio a darparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith gyda'r rheini rydym yn delio â nhw ym mhob un o'n gweithleoedd.

Creu amodau ffafriol – trwy ein rhaglen Ffocws ar Gwsmeriaid, cael dealltwriaeth well o anghenion ein cwsmeriaid a'r amgylchiadau gwahanol sy'n bodoli mewn rhannau gwahanol o Gymru.

Cynllun Gweithredu – Monitro cydymffurfiaeth â'r safonau yn fewnol 2018/2019

Safon	Gofyniad	Sylwadau gan y busnes / Camau gweithredu i'w cymryd
Brandio		
7	<p>A yw'r templed pennawd yn cynnwys y datganiad canlynol?</p> <p>Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi</p> <p>Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay</p>	<p>Sylw gan y busnes – Mae'r llofnod e-bost corfforaethol yn cynnwys y datganiad hwn.</p> <p>Cam gweithredu – Dylid cynnwys y datganiad ar dempledi pennawd corfforaethol sydd ar gael at ddefnydd y staff ar y fewnwyd.</p>
Cyfleusterau		
94	<p>A yw pob polisi sy'n ymwneud â Chyfleusterau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg?</p> <p>A yw'r holl ganllawiau staff sy'n ymwneud â Chyfleusterau ar gael yn Gymraeg?</p>	<p>Sylw – Nid yw'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Cam gweithredu – Mae angen adolygu tudalennau mewnwyd ar gyfleusterau er mwyn sicrhau bod pob tudalen a'r wybodaeth, gan gynnwys polisiâu a chanllawiau, ar gael i'r staff yn Gymraeg.</p>
94	<p>A yw e-byst Cyfleusterau sy'n cael eu hanfon at bawb neu grwpiau mawr o staff yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg uwchlaw'r Saesneg?</p>	<p>Sylw – Cyfarwyddir staff Cyfleusterau i anfon holl nodiadau adeiladau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mewn achos o argyfwng neu berygl iechyd a diogelwch <u>yn unig</u>, anfonir nodiadau ar gyfer adeilad neu grŵp penodol yn Saesneg yn unig.</p> <p>Cam gweithredu – Dylai arweinwyr tîm atgoffa'u staff am yr angen i anfon e-byst mewnol at yr holl staff yn ddwyieithog. Bydd Cynghorydd Polisi'r Gymraeg yn mynychu cyfarfod y tîm i drafod gofynion y safonau gyda holl staff Cyfleusterau.</p>
Polisiau Pobl		
111	<p>Os derbynnir cwyn gan aelod o'r staff yn Gymraeg, a yw'r gweithiwr yn cael cynnig bod</p> <p>(a) Y cyfarfod yn cael ei gynnal heb gymorth gwasanaeth</p>	<p>Sylw – Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg. Rhoddir dewis iaith i staff ynghylch yr iaith y cynhelir y cyfarfod ynddi – ni chynhwysir hyn</p>

	cyfieithu ar y pryd?	o fewn y canllawiau cwynion ar gyfer staff. Cam gweithredu – Mae angen cynnwys datganiad yn y polisiau a gweithdrefnau cwynion/disgyblu fel a ganlyn: Mae croeso i staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, a fydd yn cael eu cynnal heb ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd.
112 112a	A yw polisiau yn datgan y gallai staff ymateb yn Gymraeg i honiadau mewn proses ddisgyblu a wneir yn eu herbyn?	Sylw – Nid yw polisiau yn cynnwys y datganiad hwn. Cam gweithredu – Mae angen cynnwys datganiad o fewn polisiau a gweithdrefnau fel a ganlyn: Mae croeso i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y broses ddisgyblu.
Hamdden		
60	A yw pob derbynfa yn ein canolfannau ymwelwyr yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg?	Sylw – Nid yw pob aelod o'r staff yn gallu siarad Cymraeg yn nerbynfa Garwnant. Croesawir pob ymwelydd yn ddwyieithog. Cam gweithredu – Trefnir cwrs ar gyfer holl aelodau'r staff sy'n gweithio yn y ganolfan sy'n dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu deall ac ymateb i ymholiadau syml yn Gymraeg.
64	A yw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ac yn gweithio yn y dderbynfa yn gwisgo bathodyn neu laniard "Cymraeg"?	Sylw – Croesawir yr holl ymwelwyr yn ddwyieithog ond nid yw'r staff yn gwisgo bathodyn neu laniard ym Mwlch Nant yr Arian. Cam gweithredu – Bydd bathodyn neu laniard "Cymraeg" yn cael ei roi i'r holl aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn ei wisgo ym Mwlch Nant yr Arian.
Cyfathrebu Digidol		
117	A yw testun pob tudalen ar fewnrwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael yn Gymraeg?	Sylw – Nodwyd nad yw rhai o'r tudalennau yn ddwyieithog. Cam gweithredu – Mae gwaith ar y gweill gyda pherchnogion tudalennau i gyfieithu'r gwaith a sicrhau bod y dudalen yn llwyr weithredol yn y Gymraeg.
Hyfforddiant		

<p>124, 125, 129 a 146</p>	<p>A ddarperir hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Recriwtio a chyfweld (b) Rheoli perfformiad (c) Cwynion a gweithdrefnau disgyblu (d) Hyfforddiant ymsefydlu (e) Delio â'r cyhoedd (f) Iechyd a diogelwch <p>A ddarperir hyfforddiant ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Cyfarfodydd (b) Cyfweliadau (c) Cwynion a gweithdrefnau disgyblu <p>A ddarperir gwybodaeth ar gyfer gweithwyr newydd ynghylch codi eu hymwybyddiaeth am y Gymraeg?</p> <p>.</p> <p>A chedwir cofnod ar gyfer pob blwyddyn ariannol ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg? <p>Canran cyfanswm y staff sy'n mynychu'r cwrs Cymraeg?</p>	<p>Sylw – Mae un cwrs hyfforddiant ar sgiliau cyfweld yn y Gymraeg wedi'i drefnu. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau eraill. Mynychodd 14 aelod o staff Coed y Mynydd gyrsiau iechyd a diogelwch unigol a gynhaliwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Cam gweithredu – Sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hymgorffori o fewn fframweithiau hyfforddiant. Ystyried ffyrdd o hyrwyddo cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn weithredol. Diweddarau'r dudalen hyfforddiant ar y fewnrwyd fel ei bod yn cynnwys argaeledd hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>126</p>	<p>A ddarperir cyfleoedd yn ystod oriau gwaith fel bod gweithwyr yn gallu derbyn hyfforddiant o ran:</p> <p>Defnyddio'r Gymraeg mewn rôl fel rheolwr?</p> <p>Deall sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle?</p>	<p>Sylw – Ni ddarperir hyn ar hyn o bryd.</p> <p>Cam gweithredu – Edrych ar gyfleoedd i ddarparu'r cyrsiau hyn yn y dyfodol a hyrwyddo'u hargaeledd yn fwy eang.</p>

Atodiad 2

Cwynion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn adrodd 2018/2019

Natur y gŵyn	Canlyniad	Unrhyw gamau gweithredu pellach
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd yn bosibl chwilio am "Llwybr Arfordir Cymru" ar Instagram ond dim ond "Wales Coast Path". Gan fod enw'r defnyddiwr yn Saesneg, nid oedd modd i ddefnyddwyr dagio lluniau gan ddefnyddio'r enw Cymraeg. Roedd yr unigolyn a'r comisiynydd yn credu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr achos hwn a gofynnwyd inni newid enw'r defnyddiwr.</p>	<p>Mewnosodwyd yr enw defnyddiwr #Llwybr Arfordir Cymru i'r bywgraffiad gyda #Wales Coast Path, sy'n caniatáu pobl i chwilio am a dilyn dau hashnod yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eraill Llwybr Arfordir Cymru wedi'u diwygio er mwyn cynnwys y teitl "Llwybr Arfordir Cymru / Wales Coast Path" a chael bywgraffiadau dwyieithog.</p> <p>Mae'r un mater sy'n weddill y tu allan i reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd cyfyngiad 30 o nodau ar gyfer enwau cyfrif Instagram, sy'n golygu nad yw'n bosibl cael un cyfrif â theitl dwyieithog Cymraeg/Saesneg. Mae'r URL ar gael yn Saesneg yn unig hefyd.</p>
<p>Derbyniwyd llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn ei hysbysu bod mesurydd parcio yn ein canolfan ymwelwyr ym Mwlich Nant yr Arian yn dangos testun yn Saesneg yn unig.</p>	<p>Roedd y peiriant dan sylw newydd ei osod ac roedd y sgrin gyntaf yn dangos baner Prydain ac roedd angen i'r defnyddiwr gwasgu botwm ychwanegol er mwyn cael dewis iaith rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Diffoddwyd y peiriant a diweddarwyd y sgriniau fel eu bod yn cynnig dewis iaith mewn modd rhagweithiol ar y sgrin gyntaf. Gwiriwyd y peiriant gan staff y ganolfan ymwelwyr cyn iddo gael ei ddefnyddio unwaith yn rhagor.</p>	<p>Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i fethiant posibl i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn y sefydliad. Yn dilyn camau a weithredwyd i ddatrys y mater, penderfynodd y comisiynydd i ddod â'r ymchwiliad i ben.</p>
<p>Derbyniwyd cwyn trwy swyddfa Gweinidog y Cynulliad am safon y Gymraeg mewn ymateb i e-bost a anfonwyd i'n cyfeiriad e-bost ymholiadau gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn tynnu'n sylw at enw lle Cymraeg oedd wedi'i gamsillafu ar ein gwefan.</p>	<p>Cysylltodd aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth â'r unigolyn dan sylw yn uniongyrchol, gan ymddiheuro am yr ymateb a dderbyniwyd a'i sicrhau y byddai'r sillafiad anghywir yn cael ei gywiro ar ein gwefan. Yn ogystal, pasiwyd ymddiheuriadau ymlaen i'r unigolyn ynghylch</p>	<p>Mewn trafodaethau gyda rheolwr y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, trefnwyd cwrs Gloywi Iaith i gefnogi a helpu ein staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig wrth ymateb i ymholiadau yn y Gymraeg. Cysylltodd yr aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth â'r unigolyn</p>

<p>Cwestiynodd yr unigolyn ein hymrwymiad i safonau'r Gymraeg yn ein sefydliad.</p>	<p>safon y Gymraeg ysgrifenedig yn yr ymateb mewn e-bost a dderbyniwyd oddi wrth ein sefydliad.</p>	<p>dan sylw unwaith yn rhagor i'w hysbysu am y camau gweithredu ychwanegol a gymerwyd gennym i drefnu hyfforddiant ar gyfer ein staff.</p>
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan unigolyn ynghylch nodyn trosglwyddo gwastraff / dogfennau dyletswydd gofal a dderbyniwyd gan gwmni trosglwyddo gwastraff preifat am nad oeddent ar gael yn Gymraeg. Gellir gweld templedi ar gyfer y dogfennau hyn ar wefan .Gov.</p>	<p>Gwnaethom gadarnhau ein dyletswyddau fel rheoleiddwyr Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005, gan gadarnhau yn ein hymateb i'r comisiynydd nad oeddem yn gyfrifol am y templedi a gynhelir ar wefan .Gov. Esboniwyd y gellir gweld templedi ar gyfer y ffurflenni yn y rheoliadau, ond nid oes rhaid i gwmnïau preifat ddefnyddio'r rhain a gallant greu eu rhai eu hunain yn unol â gofynion.</p>	<p>Ni chymerwyd camau gweithredu pellach.</p>
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan unigolyn trwy Twitter nad oedd yn gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg ym Mwlch Nant yr Arian ar 2 Ionawr 2019.</p>	<p>Anfonwyd ymateb at y comisiynydd i esbonio bod y siaradwr Cymraeg a oedd i fod yn gweithio ar y diwrnod hwnnw yn anhwylyd ac yn methu gweithio. Roedd dysgwr Cymraeg wedi ateb y ffôn yn ddwyieithog a phan siaradodd y galwr Cymraeg, esboniodd ei fod yn ddysgwr ac nid oedd yn siaradwr Cymraeg rhugl. Gofynnodd y galwr a allai siarad â siaradwr Cymraeg a phan roddwyd esboniad i'r galwr, parhaodd y sgwrs yn Saesneg. Cadarnhaodd yr ymateb fod tri o siaradwyr Cymraeg rhugl yn gweithio yn y ganolfan.</p>	<p>Mae'r comisiynydd wedi penderfynu ymchwilio i'r mater ac rydym yn aros am benderfyniad mewn perthynas â'r ymchwiliad. Yn ein hymateb i'r ymchwiliad, rydym wedi cadarnhau bod y rôl arweinydd tîm yn y ganolfan, a oedd yn wag yn ddiweddar, wedi'i rhoi i siaradwr Cymraeg rhugl. Mae dau aelod newydd o staff tymhorol sy'n gweithio fel cynorthwywyr siop / canolfan ymwelwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ogystal. Daw hyn â chyfanswm y siaradwyr Cymraeg i chwech. Mae dwy swydd wag ychwanegol wedi'u hysbysebu ac rydym yn gobeithio denu siaradwyr Cymraeg rhugl i'r swyddi.</p>
<p>Derbyniwyd gohebiaeth gan Barc Cenedlaethol Bannau</p>	<p>Anfonwyd ymateb i'r Parc Cenedlaethol i'w diolch am</p>	<p>Mae'r tudalennau ar y tudalennau Ar Grwydr yn</p>

<p>Brycheiniog ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg ar dudalen o fewn adran "Ar Grwydr" ein gwefan. Nid ydynt yn cytuno â'n defnydd o brif lythrennau wrth esbonio ystyr enw i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg gan fod hyn yn awgrymu bod enw cyfatebol yn y Saesneg ar gyfer yr enw Cymraeg safonol gwreiddiol, neu ynghylch ein defnydd o brif lythrennau wrth enwi afonydd, e.e. 'River Teifi', sy'n awgrymu mai dyma'r enw safonol cywir, yn lle Afon Teifi, sef yr enw safonol yn y Gymraeg.</p>	<p>dynnu ein sylw i'r mater ac i gadarnhau y cywirwyd y dudalen we.</p>	<p>cael eu diweddarau gan fod peth o'r wybodaeth a gynhwysir ar y dudalen wedi'i hetifeddu o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae canllawiau yn cael eu drafftio er mwyn sicrhau mai enwau lleoedd Cymraeg safonol yn unig a ddefnyddir a beth fyddai'r drefn orau o ran cynnwys yr enw Cymraeg yn llawn gyda diffiniad / term generig yn Saesneg os oes ei angen i esbonio beth yw'r nodwedd.</p> <p>Esboniwyd y gwaith rydym yn ei wneud i wella'r tudalennau hyn ac eraill ar ein gwefan i'r Parc Cenedlaethol.</p>
<p>Cwynion a dderbyniwyd gan staff.</p>	<p>Rydym wedi parhau i dderbyn cwynion gan staff sy'n derbyn e-byst y bwriedir eu hanfon at holl aelodau'r staff neu grŵp mawr o staff yn Saesneg yn unig. Mae pob cyflwyniad i'r staff trwy Skype yn Saesneg yn unig ac nid oes darpariaeth ar gyfer cyflwyniad trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Codir y materion hyn i gyd gyda'r timau cysylltiedig, gan dynnu sylw at ein polisi iaith mewnol. Oherwydd y Rhaglen Newid sy'n weithredol, mae nifer o gyflwyniadau wedi'u cynnal, a phryd y bo modd cynhaliwyd y rhain yn ddwyieithog.</p>

Atodiad 3

Sgiliau Cymraeg y staff ar 2 Ebrill 2019

Heb gwblhau datganiad	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
185	62	735	388	132	193	235
9.6%	3.6%	42.1%	22.2%	7.6%	11.1%	13.5%

Sgiliau Cymraeg staff sydd wedi hunanasesu eu sgiliau (Ebrill 2018)

Heb gwblhau datganiad	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
165	71	738	394	112	193	229
8.7%	4.1%	42.5%	22.7%	6.4%	11.1%	13.2%

Sgiliau Cymraeg staff sydd wedi hunanasesu eu sgiliau (Ebrill 2017)

Heb gwblhau datganiad	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
202	73	705	363	103	182	219
10.9%	4.4%	42.9%	22.1%	6.3%	11.1%	13.3%

Sgiliau Cymraeg pob cyfarwyddiaeth ar 2 Ebrill 2019

Gallu Cymraeg	Heb gwblhau datganiad	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
	185	62	735	388	132	193	235
	9.6%	3.6%	42.1%	22.32%	7.6%	11.1%	13.5%
Prif Swyddog Gweithredol	1				1		
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	16	10	98	47	13	27	31
Llywodraethu	1	2	4	4	3	1	1
Cyfathrebu	3	1	6	6	2	3	20
Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	30	7	201	102	41	33	37
Gweithrediadau 'r Gogledd	70	8	170	112	48	88	105
Gweithrediadau 'r De	63	33	251	114	24	39	40
Trawsnewid	1	1	5	3		2	1

Proffil oedran cyfartalog siaradwyr Cymraeg ar 2 Ebrill 2019

Proffil oedran	Heb gwblhau datganiad	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
< 21	7		1	1			2
22>29	38	4	37	15	3	22	39
30>39	48	10	165	95	38	49	62
40>49	37	15	256	146	40	66	60
50>59	41	24	232	106	44	39	56
60+	14	9	44	25	7	17	16
	185	62	735	388	132	193	235

Atodiad 4

Hyfforddiant Cymraeg

Mae 11 o gyrsiau hyfforddi Cymraeg wythnosol mewnol wedi'u cynnal, gyda thiwtor yn dod i mewn i'n swyddfeydd. Mae gan y cyrsiau hyn gyfradd rhoi'r gorau sydd yn is na'r cyrsiau a fynychwyd yn allanol ac mae'r presenoldeb hefyd yn uwch ac yn fwy cyson na chysiau a fynychwyd yn allanol oherwydd hwylustod y lleoliad, teithio ac ati.

Mae'r cyrsiau yn dilyn blwyddyn academiaidd addysg, gan ddechrau ym mis Medi a gorffen ar ddiwedd mis Mehefin bob blwyddyn.

Hyfforddiant mewnol wythnosol

Mae deg aelod o'r staff yn mynychu cwrs Sylfaen 1

Mae 49 aelod o'r staff yn mynychu cwrs Canolradd 1

Mae chwe aelod o'r staff yn mynychu cwrs Canolradd 2

Mae chwe aelod o'r staff yn mynychu cwrs Uwch 1

Mae saith aelod o'r staff yn mynychu cwrs Uwch 2

Cyrsiau wythnosol a fynychwyd yn allanol

Mynychodd 16 aelod o'r staff cwrs Mynediad 1

Mynychodd pum aelod o'r staff cwrs Mynediad 1+2

Mynychodd pum aelod o'r staff cwrs Mynediad 2

Mynychodd deg aelod o'r staff cwrs Sylfaen 1

Mynychodd tri aelod o'r staff cwrs Sylfaen 1+2

Mynychodd tri aelod o'r staff cwrs Sylfaen 2

Mynychodd saith aelod o'r staff cwrs Canolradd 1

Mynychodd chwe aelod o'r staff cwrs Canolradd 2

Mynychodd wyth aelod o'r staff cwrs Uwch 1

Mynychodd 11 aelod o'r staff cwrs Uwch 2

Mynychodd tri aelod o'r staff cwrs Meistroli

Mynychodd un aelod o'r staff cwrs Hyfedredd

Yn dilyn llwyddiant y rheini a wnaeth gymryd y cwrs ar-lein ar gyfer y cam cyntaf hwn o ddatblygu'u sgiliau Cymraeg, yn y dyfodol byddwn yn ystyried mwy o ffyrdd sydd gennym o ddefnyddio hyfforddiant ar-lein, a bydd hyn yn galluogi mwy o staff i allu datblygu eu sgiliau ar sail fwy rheolaidd ac ar gyflymder y gallant ei reoli, gan eu galluogi i gymryd rhan fel y mynnant yn ystod yr wythnos, yn hytrach na mynychu'r dosbarth wythnosol mwy ffurfiol am ddwy awr.

Derbyniodd un aelod o'r staff hyfforddiant ar sail un wrth un, er mwyn ei gynnal o amgylch ymrwymadau gwaith, gyda thiwtor sy'n gallu gweithio'n hyblyg.

Cyrsiau preswyl a gynhelir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae 21 aelod o staff wedi mynychu cwrs preswyl pum diwrnod o hyd ar lefelau Canolradd neu Uwch yng nghanolfan iaith Nant Gwrtheyrn.

Cwrs "Croeso Cymraeg Gwaith" ar-lein (cwrs ar-lein deg awr o hyd)

Mae 99 o weithwyr wedi cofrestru i gwblhau cwrs ar-lein a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cwrs hwn yn helpu trwy alluogi'r staff i gwrdd â phobl a'u cyfarch ac ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan ddangos cwrteisi ieithyddol.

Cwrs Cymraeg Croeso Nôl ar-lein

Cofrestrodd 14 o bobl ar gyfer y cwrs, a gwblhawyd gan un unigolyn.

Canolfan Bedwyr – cyrsiau Prifysgol Bangor

Mynychodd saith aelod o'r staff y cwrs 'Cymraeg ar y cyfrifiadur'.

Mynychodd pedwar aelod o'r staff y cwrs 'Datblygu eich sgiliau iaith'.

Mynychodd dau aelod o'r staff y cwrs 'Cymraeg Clir'.

Cymraeg Gwaith Dwys

Mynychodd 20 aelod o'r staff y cwrs hwn ar lefel mynediad yn swyddfeydd Tŷ Cambria a Maes y Ffynnon.

Ysgol Galan/Pasg/Haf

Mynychodd 23 aelod o'r staff y cyrsiau hyn ar lefelau amrywiol ac yn lleoliadau ledled Cymru.

Gloywi Iaith (sgiliau ysgrifenedig)

Mynychodd 11 aelod o'r staff y cwrs hwn, a ddatblygwyd ar gyfer ein tîm Canolfan Gofal Cwsmeriaid er mwyn eu helpu wrth ymateb i ymholiadau Cymraeg ysgrifenedig.

Cynhaliwyd y cwrs am ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o saith wythnos.

Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mynychodd 16 aelod o'r staff gyrsiau a gynhaliwyd yn swyddfa Tŷ Cambria, Caerdydd, a swyddfa Maes y Ffynnon, Bangor.

Ymweliad â Stadiwm y Principality – Dysgwyr Cymraeg

Mynychodd wyth aelod o'r staff daith o'r stadiwm gyda'u tiwtor er mwyn ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Adnoddau ychwanegol ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr

Cysgliad (meddalwedd gramadeg / gwirio sillafu a geiriadur y Gymraeg)

Mae trwydded 12 mis ar waith i ddefnyddio'r feddalwedd uchod gan yr holl staff ar eu gliniaduron a byrddau gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, yn unol â gofyniad Safon 116.

Apiau

Ap Treiglo – Nod yr ap hwn yw helpu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wirio treigladau.

Mae elfen chwilio'r ap ond yn cynnwys y geiriau hynny a fydd yn achosi'r gair sy'n dilyn yn uniongyrchol i dreiglo.

Ap Sglein – Mae hwn yn fersiwn ap o wefan Sglein ar lein. Mae'r wefan a'r ap wedi'u creu ar gyfer dysgwyr sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 5 / ar Safon Uwch.

Atodiad 5

Isod ceir y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'n Polisi Safonau'r Gymraeg.

Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau (1 – 83)

- Canllawiau ar waith i ddelio â gohebiaeth cyfrwng Cymraeg, galwadau ffôn, trefnu cyfarfodydd, asesu gofynion cyfieithu, recriwtio, desgiau derbynfeydd, arwyddion a chyfathrebu mewnol, a'r hyn a welir ar y fewnwyd.
- Mae canllawiau ar gyfer ystyriaethau Cymraeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar waith gan y tîm cyfathrebu.
- Mae ystyriaethau Cymraeg sydd angen eu cynnwys mewn cytundebau trydydd parti ar gael ar y tudalennau canllawiau caffael ar y fewnwyd.
- Mae ystyriaethau Cymraeg wedi'u hymgorffori yn y canllawiau ar gyfer grantiau.
- Mae'r rhyngwyneb a phob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg.
- Cynhyrchir yr holl ddogfennau cyhoeddus, hysbysebion, hysbysiadau a deunydd hyrwyddo yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg ar yr ochr chwith neu uwchben y Saesneg.
- Arddangosir arwyddion ym mhob un o'n desgiau derbynfeydd cyhoeddus sy'n nodi y croesawir y Gymraeg, ac mae staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau neu laniardiau "Cymraeg" fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu eu hadnabod.
- Gofynnir i staff sy'n siaradwyr Cymraeg i wisgo bathodyn neu laniard "Cymraeg" i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Rhoddir y dewis i ddysgwyr i wisgo laniard neu fathodyn "Dysgwr Cymraeg".
- Cofnodir dewis iaith y cwsmeriaid hynny rydym yn ymdrin â nhw yn aml gan ein meddalwedd gyfrifiadurol System Cofnodi Digwyddiadau Cymru er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.
- Mae cyrsiau Croeso Cymraeg Gwaith wedi'u trefnu i helpu ein holl staff i gyfarfod, cyfarch ac ateb y ffôn yn ddwyieithog er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol.
- Mae templedi pennawd llythyron, agendâu, adroddiadau, nodiadau cyfarfod a chyflwyniadau dwyieithog ar gael at ddefnydd y staff ar y fewnwyd.
- Mae pob un o'n tudalennau Facebook yn dudalennau dwyieithog cyfunol.
- Mae cyfrifon Twitter corfforaethol yn ddwyieithog.
- Mae mesuryddion parcio hunanwasanaeth yn ein meysydd parcio yn cynnig dewis iaith.
- Gellir gweld cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i staff ar y dudalen Dysgu a Datblygu ar y fewnwyd.
- Mabwysiadodd y sefydliad hunaniaeth ddwyieithog o'i ddiwrnod breinio ymlaen.
- Mae tîm cyfieithu mewnol yn weithredol er mwyn cynnal a threfnu gofynion cyfieithu ar gyfer y sefydliad.

Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau polisi (84 – 93)

- Rhaid i staff gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi newydd neu bolisi a ddiwygir, sy'n cynnwys ystyriaethau o'r Gymraeg. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hysgrifennu mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac maen nhw'n cofnodi pa effaith, os o gwbl, y bydd y polisi'n ei chael ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cymeradwyir y rhain gan yr Uwch-gynghorydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynghorydd Polisi'r Gymraeg.

Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau gweithredol (94 – 140)

- Gofynnir i bob aelod o staff newydd a phresennol am ei ddewis iaith o ran derbyn gohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth ac sydd wedi'i chyfeirio ato'n bersonol.
- Mae ein holl bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau pobl ar gael i'r staff ar y fewnrwyd yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae polisiau yn caniatáu staff i wneud cwynion a thynnu sylw at faterion yn Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n perthyn i'r gŵyn.
- Mae meddalwedd Windows 10 a ddefnyddir gan bob aelod o staff ar gael yn Gymraeg.
- Mae pecyn gwirio sillafu/gramadeg Cymraeg Cysill/Cysgeir ar gael i bob aelod o'r staff gael ei ddefnyddio.
- Mae'r fewnrwyd yn ddwyieithog.
- Ceir tudalen polisi Cymraeg benodol ar y fewnrwyd gyda pholisi a chanllawiau ar y safonau i helpu bob aelod o'r staff i weithio'n ddwyieithog a hunanasesu sgiliau Cymraeg, gan gofnodi'r wybodaeth yn system ganolog MyNRW.
- Ceir tudalen hyfforddiant Cymraeg benodol sy'n cynnal canllawiau ar y rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg, sut i drefnu hyfforddiant, adnoddau dysgu i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith, cynllun mentora, apiau rhad ac am ddim i ddysgwyr, geiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol, hanes y Gymraeg a diwylliant.
- Mae rhaglen hyfforddiant Cymraeg ar waith i roi cyfle i'r holl staff i ddatblygu eu sgiliau iaith at ddibenion gwaith.
- Mae llofnod corfforaethol dwyieithog ar gael at ddefnydd pob aelod o staff.
- Asesir pob swydd newydd a gwag o ran gofynion sgiliau Cymraeg ac fe'i cofnodir at ddibenion archwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Prawf-ddarllenir y testun ar arwyddion gan ein tîm cyfieithu.
- Mae polisi iaith mewnol ar waith er mwyn hwyluso defnydd o Gymraeg yn fewnol. Mae'r polisi yn cynnwys:
 - Yr angen i'r holl staff asesu eu sgiliau Cymraeg
 - Bod staff yn nodi eu dewis iaith wrth dderbyn gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio atyn nhw'n bersonol
 - Bod cynlluniau rheoli perfformiad a hyfforddiant ar gael yn ddwyieithog fel y gall staff eu cwblhau yn eu dewis iaith
 - Dylai eitemau a anfonir at yr holl staff neu at grŵp mawr o staff fod yn ddwyieithog

- Anogir y staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ysgrifenedig wrth anfon gohebiaeth yn fewnol
- Annog staff i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfodydd mewnol
- Pa gyrsiau y gall staff ofyn amdanynt yn Gymraeg
- Bod croeso i staff leisio cwyn yn Gymraeg ac y gallant ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn yn Gymraeg yn ystod y broses ddisgyblu fewnol

Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau cadw cofnodion a safonau atodol (141 – 168)

- Cofnodir pob cwyn a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gymraeg ac fe'i hadroddir yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae gweithdrefn gwyno ar waith sy'n esbonio sut yr ymdrinnir â phob cwyn a dderbyniwyd gan ein sefydliad a chyhoeddir y weithdrefn ar ein gwefan. Mae staff sy'n delio â chwynion yn cwblhau modiwl hyfforddiant Gwasanaeth Sifil ar-lein.
- Cyhoeddir polisi safonau'r Gymraeg ar y fewnwyd a'r wefan ac mae'n nodi pob safon y mae gofyn i ni gydymffurfio â hi, gan esbonio sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â phob un. Mae'r polisi ar gael trwy gais ym mhob un o'n swyddfeydd.
- Mae gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol gyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi safonau'r Gymraeg.
- Mae'r cynllun corfforaethol yn egluro sut mae'r cynllun busnes yn cysylltu â'n cynllun corfforaethol, ac mae'n nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni i helpu i gryfhau ein gallu dwyieithog a gwella ein gwasanaethau i gwsmeriaid a'n perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid – a hynny drwy ddarparu gwasanaeth yn eu dewis iaith. Mae ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg ar waith er mwyn sicrhau bod gennym nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.
- Cyhoeddir ymwybyddiaeth o'r safonau yn rheolaidd ar y fewnwyd ac yn y cylchlythyr misol i reolwyr, lle gofynnir i reolwyr drafod eu gofynion gyda'u timau.
- Fel rhan o'r broses ymsefydlu gyda staff newydd, gofynnir i reolwyr drafod gofynion y safonau, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol eraill. Caiff y rhestr wirio ymsefydlu ei llofnodi gan y gweithiwr a'r rheolwr a'i chadw ar ffeil.
- Cynhelir y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau gan Gynghorydd Polisi'r Gymraeg – amlygir unrhyw beryglon i'r Tîm Gweithredol, rheolwyr a'r Grŵp Pencampwyr.
- Defnyddir offeryn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi neu brosiect newydd sydd ar waith, er mwyn asesu'r effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddai'n eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cofnodir yr wybodaeth at ddibenion archwilio.
- Gofynnwyd i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a chofnodi eu canfyddiadau ar ein system ganolog MyNRW. Anfonir e-bost at y staff hynny nad ydynt eisoes wedi cwblhau'r dasg hon i'w hatgoffa nad ydynt wedi'i chwblhau. Gofynnir yn ogystal i reolwyr llinell sicrhau bod staff yn cwblhau'r dasg hon.
- Trefnir cyrsiau cyfrwng Cymraeg trwy gais gan grŵp o staff.
- Cytunir ar asesiad sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag gan y rheolwr recriwtio a Chynghorydd Polisi'r Gymraeg, gan ystyried natur, lleoliad y swydd a gallu siaradwyr Cymraeg oddi fewn y tîm, i weld a yw sgiliau Cymraeg yn

hanfodol neu ddymunol neu fod angen eu dysgu ar gyfer pob swydd. Cofnodir yr wybodaeth at ddibenion archwilio a chofnodi.

- Mae Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg yn cofnodi sut mae'r safonau wedi'u gweithredu, unrhyw welliannau a wnaed i'n gwasanaethau Gymraeg, a sut rydym wedi cydymffurfio â'n safonau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyhoeddir yr adroddiad ym mis Medi bob blwyddyn ac fe'i hamlygir ar ein cyfryngau cymdeithasol, gwefan a'r fewnrwyd ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd trwy gais. Cyflwynir yr adroddiad drafft gerbron y Pwyllgor Pobl a Chyflogau a'r Tîm Gweithredol cyn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan ein Bwrdd Rheoli. Caiff ei gyhoeddi wedyn yn unol â gofynion y safonau.
- Darperir gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru